

Etholiad y Senedd 2026

Papur Briffio

Medi 2026



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NS

Tel: **0300 200 6565**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2026**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Etholiad y Senedd 2026

Papur Briffio

Medi 2026

Awduron:

Josh Hayman a Josh Jenkins

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg manwl o ganlyniadau etholiad y Senedd a gynhaliwyd ar 7 Mai 2026.





Cynnwys

1. Cyflwyniad	7
Y Senedd a'r etholiad yn 2026.....	7
Etholaethau	7
Y system etholiadol	9
Ffynonellau data.....	9
2. Crynodeb o ganlyniadau'r etholiad.....	11
Crynodeb o'r canlyniadau	11
Cyfranoldeb y canlyniad.....	15
Aelodau newydd o'r Senedd ac Aelodau sy'n dychwelyd	16
Y ganran a bleidleisiodd.....	18
3. Canlyniadau manwl yr etholiad	20
Trosolwg o ganlyniadau etholaethol	20
Afan Ogwr Rhondda.....	24
Bangor Conwy Môn	25
Blaenau Gwent Caerffili Rhymni	26
Brycheiniog Tawe Nedd	27
Caerdydd Ffynnon Taf.....	28
Caerdydd Penarth.....	29
Casnewydd Islwyn	30
Ceredigion Penfro.....	31
Clwyd	32
Fflint Wrecsam	33
Gwynedd Maldwyn	34
Gŵyr Abertawe.....	35
Pen-y-bont Bro Morgannwg	36
Pontypridd Cynon Merthyr.....	37
Sir Fynwy Torfaen	38
Sir Gaerfyrddin	39
Canlyniadau fesul plaid wleidyddol	40

Plaid Cymru	41
Reform UK	43
Llafur Cymru.....	45
Y Ceidwadwyr Cymreig	47
Plaid Werdd Cymru	49
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	51
Pleidiau gwleidyddol eraill.....	54
Ymgeiswyr Unigol	57
Colli ernes	58
Y ganran a bleidleisiodd.....	61
Pleidleisiau annilys.....	63
4. Ffynonellau canlyniadau etholiadau blaenorol	66

1. Cyflwyniad

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg manwl o ganlyniadau etholiad y Senedd a gynhaliwyd ar 7 Mai 2026.

Y Senedd a'r etholiad yn 2026

Cafodd y bleidlais i ethol Aelodau o'r Senedd ei chynnal ddydd Iau 7 Mai 2026. Cafodd yr etholiad ei gynnal ar ôl i'r Chweched Senedd gael ei diddymu am hanner nos ar 8 Ebrill 2026. Dyma oedd y seithfed etholiad cyffredinol a gynhaliwyd ar gyfer y Senedd, a'r cyntaf o dan y system bleidleisio newydd, sef cynrychiolaeth gyfrannol ar sail rhestr gaeedig. Hefyd, dyma'r tro cyntaf i 96 o Aelodau gael eu hethol, yn hytrach na'r 60 a etholwyd mewn etholiadau rhwng 1999-2021.


Cafodd y pleidleisiau eu cyfrif ddydd Gwener 8 Mai, gyda'r datganiad terfynol yn cael ei wneud am 18:05 yng Ngwynedd Maldwyn.

Enillodd Plaid Cymru y gyfran fwyaf o'r bleidlais (35.4%) a'r nifer fwyaf o seddi (43), gyda Reform UK yn dod yn ail gyda 29.3% o'r bleidlais a 34 o seddi. Roedd Llafur Cymru yn drydydd gydag 11.1% o'r bleidlais a 9 sedd, ac yna'r Ceidwadwyr Cymreig, a enillodd 10.7% o'r bleidlais a 7 sedd. Roedd Plaid Werdd Cymru yn y pumed safle gyda 6.7% o'r bleidlais a 2 sedd. Enillodd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 4.5% o'r bleidlais ac 1 sedd.

Y ganran a bleidleisiodd yn yr etholiad oedd 51.7%, sef yr uchaf erioed mewn etholiad cyffredinol ar gyfer y Senedd.

Etholaethau

Cafodd Aelodau o'r Senedd eu hethol i gynrychioli 16 etholaeth newydd y Senedd. Rhoddwyd un enw Cymraeg i bob un o'r etholaethau hyn gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Mae'r etholaethau wedi'u nodi yn y map isod.



Y system etholiadol

Defnyddiwyd system etholiadol cynrychiolaeth gyfrannol ar sail rhestr gaeedig am y tro cyntaf yn etholiadau'r Senedd. O dan y system hon, gallai pleidiau gwleidyddol cofrestredig gynnig rhestrau o hyd at wyth ymgeisydd ym mhob etholaeth. Roedd ymgeiswyr unigol (ymgeiswyr annibynnol) hefyd yn gallu sefyll yn etholaethau'r Senedd.

Cynhaliwyd yr etholiad ar draws 16 o etholaethau, gyda phob un ohonynt yn ethol chwe Aelod o'r Senedd. Cafodd yr etholaethau hyn eu **penderfynu gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru** drwy gyfuno 32 etholaeth Senedd y DU yn 16 o etholaethau'r Senedd.

Ar ôl cyfrif y pleidleisiau, dyrannwyd y chwe sedd ym mhob etholaeth i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr unigol gan ddefnyddio dull D'Hondt. Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd y cafodd seddi eu dyrannu ar gael yn yr **erthygl hon gan Ymchwil y Senedd**.

Roedd **canfyddiadau cynnar o Astudiaeth Etholiadau Cymru**, dan arweiniad ymchwilwyr o Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Abertawe, yn dangos fod dealltwriaeth y cyhoedd o'r system etholiadol newydd yn isel cyn yr etholiad. At ei gilydd, roedd 88% o'r ymatebwyr naill ai wedi ateb yn anghywir neu nid oeddent yn gwybod am y system etholiadol newydd.

Ffynonellau data

Mae data am yr etholiad yn y papur briffio hwn wedi'u casglu o ffurflenni ystadegol gan bob Swyddog Canlyniadau Etholaethol a **data a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol**. Cyfeirir at ffynonellau data sy'n gysylltiedig ag etholiadau blaenorol y Senedd (1999-2021) ar **ddiwedd y papur briffio hwn**.

Mae'r papur briffio hwn yn defnyddio'r pleidleisiau dilys i gyfrifo ac adrodd ar ganran y bobl a bleidleisiodd. Mae'r pleidleisiau dilys yn cynnwys yr holl bapurau pleidleisio sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrif, gan gynnwys papurau pleidleisio drwy'r post, ond heb gynnwys papurau pleidleisio a wrthodwyd yn y cyfrif.

Nodyn ar wybodaeth am amrywiaeth

Ni chaiff data am nodweddion Aelodau o'r Senedd ac ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd eu casglu'n rheolaidd ac felly nid yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y papur briffio hwn.

Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru **ganllawiau ynghylch amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol**, a oedd yn cynnwys canllawiau ynghylch casglu, coladu a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth yn ymwneud ag ymgeiswyr ac Aelodau etholedig. Mae hwn yn gam gwirfoddol y gall pleidiau gwleidyddol ei gymryd.

Mae'r canllawiau'n nodi y dylai'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi gan bleidiau gwleidyddol o fewn chwe wythnos i etholiad y Senedd. Ar adeg cyhoeddi, nid oedd unrhyw ddata wedi'u cyhoeddi gan bleidiau gwleidyddol. Bydd y papur briffio hwn yn cael ei ddiweddarau os a phryd y bydd y wybodaeth hon ar gael.

2. Crynodeb o ganlyniadau'r etholiad


Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb lefel uchel o ganlyniadau'r etholiad.

Crynodeb o'r canlyniadau

Mae Ffigur 1 yn dangos nifer y seddi a enillwyd gan bob plaid wleidyddol yn etholiad y Senedd. Plaid Cymru yw'r plaid fwyaf gyda 43 o seddi, ac yna Reform UK gyda 34 o seddi. Mae Llafur Cymru yn drydydd gyda 9 sedd, y Ceidwadwyr Cymreig yn bedwerydd gyda 7 sedd. Daeth Plaid Werdd Cymru yn bumed gyda 2 sedd a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru sydd yn y chweched safle gydag 1 sedd.

Mae rheolau newydd ar gyfer y Seithfed Senedd yn golygu bod yn rhaid i blaid wleidyddol gael o leiaf bum Aelod o'r Senedd i ffurfio grŵp gwleidyddol. Mae gan grwpiau gwleidyddol fwy o gyfleoedd i graffu (er enghraifft, drwy ofyn cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn a chynnal dadleuon yr wrthblaid) ac maent yn cael adnoddau ychwanegol i gefnogi eu gwaith. Yn y Seithfed Senedd, roedd y pleidiau gwleidyddol a ganlyn yn gallu ffurfio grŵp gwleidyddol: Plaid Cymru, Reform UK, Llafur Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig.

Ffigur 1: Canlyniadau etholiad Senedd 2026 fesul plaid




Tabl 1: Crynodeb o ganlyniadau etholiad cenedlaethol fesul plaid wleidyddol ac ymgeiswyr unigol

	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y pleidleisiau	Seddi a enillwyd	Etholaethau a ymleddir	Ymgeiswyr
Plaid Cymru	444,665	35.41%	43	16	105
Reform UK	367,985	29.30%	34	16	96
Llafur Cymru	139,203	11.08%	9	16	101
Y Ceidwadwyr Cymreig	134,926	10.74%	7	16	97
Plaid Werdd Cymru	84,608	6.74%	2	16	96
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	56,012	4.46%	1	16	96
Heritage Party	5,474	0.44%	0	16	17
Propel	4,032	0.32%	0	2	4
Gwlad	2,479	0.20%	0	6	6
Plaid Agored	684	0.05%	0	3	5
Plaid Gristnogol Cymru	456	0.04%	0	1	2
Plaid Gomiwnyddol Prydain	354	0.03%	0	2	2
Plaid Lafur Sosialaidd	285	0.02%	0	1	1
Official Monster Raving Loony Party	279	0.02%	0	1	1
Clymblaid Undebwyr Llafur a Sosialwyr Cymru	244	0.02%	0	2	5

Social Democratic Party	165	0.01%	0	1	1
Ymgeiswyr Unigol	14,063	1.12%	0	-	30

Mae dosbarthiad y seddi fesul plaid wleidyddol wedi'i nodi yn ffigur 2. Mae ardaloedd etholaethol wedi'u lliwio yn ôl y blaid wleidyddol sydd â'r gyfran fwyaf o'r bleidlais. Mae seddi wedi'u lliwio fesul plaid wleidyddol yn y drefn y cawsant eu dyrannu.

Ffigur 2: Dosbarthiad seddi fesul plaid wleidyddol



Cyfranoldeb y canlyniad

Defnyddiwyd system etholiadol newydd – cynrychiolaeth gyfrannol ar sail rhestr gaeedig – am y tro cyntaf yn yr etholiad hwn. Un o'r rhesymau dros gyflwyno'r system hon oedd y byddai'n **arwain at ganlyniad mwy cyfrannol** na'r system aelodau cymysg flaenorol a ddefnyddiwyd ar gyfer etholiadau rhwng 1999-2021. Mae cyfranoldeb yn golygu i ba raddau y mae canran y pleidleisiau y mae plaid yn ei hennill yn cael ei hadlewyrchu yng nghyfran y seddi a enillir gan y plaid honno.


Mae Tabl 2 yn dangos sut mae cyfran genedlaethol pob un o'r chwe phlaid wleidyddol fwyaf o'r bleidlais yn cymharu â'u cyfran o seddi yn y Seithfed Senedd.

Tabl 2: Cymhariaeth o gyfran y bleidlais genedlaethol a chyfran y seddi cenedlaethol fesul plaid wleidyddol

Plaid	Cyfran y bleidlais genedlaethol	Cyfran y seddi cenedlaethol	Gwahaniaeth
Plaid Cymru	35.41%	44.79%	+9.39%
Reform UK	29.30%	35.42%	+6.12%
Llafur Cymru	11.08%	9.38%	-1.71%
Y Ceidwadwyr Cymreig	10.74%	7.29%	-3.45%
Plaid Werdd Cymru	6.74%	2.08%	-4.65%
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	4.46%	1.04%	-3.42%

Caiff **mynegai Gallagher o anghyfranoldeb** ei ddefnyddio mewn gwyddor wleidyddol i fesur anghyfranoldeb canlyniad etholiadol. Po isaf yw ffigur Gallagher, y mwyaf cyfrannol yw'r canlyniad. Defnyddiwyd y mynegai gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i asesu gwahanol systemau etholiadol posibl ar gyfer y Senedd. Mae'r siart isod yn dangos sut mae etholiad Senedd 2026 yn cymharu ag etholiadau blaenorol.

Ffigur 3: Mynegai Gallagher o Anghyfranoldeb ym mhob un o etholiadau'r Senedd



Roedd etholiad y Senedd yn 2026 ychydig yn fwy cyfrannol na'r etholiad blaenorol yn 2021. Mewn gwirionedd, heblaw am yr etholiad cyntaf ym 1999, dyma'r etholiad mwyaf 'cyfrannol' yn hanes y Senedd. Fodd bynnag, nid yw sgôr etholiad 2026 o 9.5, o gymharu â sgôr etholiad 2021 o 10.1, yn awgrymu gwelliant sylweddol mewn cyfranoldeb o dan y system etholiadol newydd.¹

Aelodau newydd o'r Senedd ac Aelodau sy'n dychwelyd

Ni safodd 15 Aelod o'r Chweched Senedd i gael eu hail-ethol. O'r 45 a safodd eto, cafodd 29 ohonynt eu hail-ethol. Cafodd 66 o bobl eu hethol i'r Senedd am y tro cyntaf. Yn ogystal â hyn, roedd un Aelod wedi gwasanaethu yn ystod tymor blaenorol o'r Senedd (Nerys Evans AS rhwng 2007-11).

Elin Jones AS a Lynne Neagle AS yw'r Aelodau sydd wedi gwasanaethu hiraf i gael eu hail-ethol. Maent ill dau wedi bod yn Aelodau o'r Senedd ers i'r sefydliad gael ei sefydlu ym 1999. Mae Tabl 3 yn dangos yr ASau a etholwyd yn 2026 fesul tymor y Senedd y cawsant eu hethol gyntaf.

¹ Cymerwyd ffigurau mynegai Gallagher ar gyfer etholiadau 1999-2016 o [adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#) (2017) ac fe'u cyfrifwyd gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd. Cafodd y ffigurau ar gyfer etholiadau 2021 a 2026 eu cyfrifo gan Ymchwil y Senedd. Defnyddiwyd cyfartaledd o ganrannau pleidleisiau'r rhestrau etholaethol a'r rhestrau rhanbarthol wedi'u cyfuno i gyfrifo ffigurau 2021.

Tabl 3: ASau a etholwyd yn 2026 fesul tymor y Senedd y cawsant eu hethol gyntaf

	1999-2003	2003-2007	2007-2011	2011-2016	2016-2021	2021-2026	2026-
Plaid Cymru	1	0	1	3	3	5	30
Reform UK	0	1	0	0	0	1	32
Llafur Cymru	1	0	0	2	3	1	2
Y Ceidwadwyr Cymreig	0	0	3	1	0	3	0
Plaid Werdd Cymru	0	0	0	0	0	0	2
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	0	0	0	0	0	1	0
Cyfanswm	2	1	4	6	6	11	66

Mae'r tabl hwn yn dangos mai dim ond 19 o Aelodau a etholwyd yn etholiad 2026 sydd wedi gwasanaethu am fwy nag un tymor blaenorol o'r Senedd.

Mae Tabl 4 yn dangos canran yr Aelodau newydd a'r Aelodau sy'n dychwelyd fesul plaid wleidyddol.

Tabl 4: Canran yr Aelodau newydd a'r Aelodau sy'n dychwelyd fesul plaid wleidyddol

	Seddi a enillwyd	Aelodau Newydd		Aelodau sy'n Dychwelyd (o unrhyw dymor blaenorol)	
		Nifer	%	Nifer	%
Plaid Cymru	43	30	69.77%	13	30.23%
Reform UK	34	32	94.12%	2	5.88%
Llafur Cymru	9	2	22.22%	7	77.78%
Y Ceidwadwyr Cymreig	7	0	0.00%	7	100.00%
Plaid Werdd Cymru	2	2	100.00%	0	0.00%
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	1	0	0.00%	1	100.00%
Yr holl Aelodau	96	66	68.75%	30 ²	31.25%


Y ganran a bleidleisiodd

Roedd mwy na 2.43 miliwn o bobl wedi'u cofrestru i bleidleisio adeg yr etholiad yn 2026. O'r rhain, gwnaeth dros 1.25 miliwn o bobl fwrw pleidlais. Yn seiliedig ar bleidleisiau dilys, y ganran a bleidleisiodd yn yr etholiad hwn oedd 51.7%. Y ffigur ar gyfer yr etholiad yn 2021 oedd 46.6%.

Yn etholiad 2026, pleidleisiodd y ganran uchaf o bobl ers i'r Senedd gael ei sefydlu, gan gyrraedd dros 50% am y tro cyntaf. Ers etholiad 2021, mae grŵp mwy o bobl yn gymwys i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd, gan gynnwys pobl ifanc 16 a 17 oed, yn ogystal â dinasyddion yr UE a dinasyddion tramor cymwys. Mae Ffigur 4 yn cymharu'r canrannau o bobl a bleidleisiodd yn etholiadau'r Senedd ers 1999.

² Mae'r ffigur hwn yn cynnwys Nerys Evans AS, a wasanaethodd fel Aelod o'r Cynulliad dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru rhwng 2007-11.

Ffigur 4: Y ganran a bleidleisiodd yn etholiadau'r Senedd (1999-2026)



Roedd y ganran a bleidleisiodd ar ei huchaf yng Nghaerdydd Ffynnon Taf ar 58.50% ac ar ei hisaf yn Afan Ogwr Rhondda ar 44.68%.

3. Canlyniadau manwl yr etholiad

Mae'r adran hon yn cynnwys data manwl am ganlyniadau'r etholiad, gan gynnwys dadansoddiad o'r canlyniad ym mhob etholaeth a throsolwg o berfformiad pob un o'r chwe phlaidd wleidyddol fwyaf y safodd ymgeiswyr drostynt yn yr etholiad.

Trosolwg o ganlyniadau etholaethol

Mae Tabl 5 yn dangos y canlyniadau ym mhob un o 16 etholaeth y Senedd, gan gynnwys cyfran y bleidlais ar gyfer pob un o'r chwe phlaidd wleidyddol fwyaf (a phleidiau ac ymgeiswyr eraill wedi'u cyfuno ar ffurf y categori 'eraill'), yn ogystal ag enillwyr y chwe sedd ym mhob etholaeth a'r ganran a bleidleisiodd.

Mae'r canlyniadau ar gyfer pob un o'r etholaethau wedi'u dadansoddi ar y tudalennau a ganlyn.

Tabl 5: Crynodeb o ganlyniadau'r etholiad ym mhob etholaeth

Enw'r etholaeth	Cyfran y pleidleisiau (%)							Seddi a enillwyd						Y ganran a bleidleisiodd (%)
	Plaid Cymru	Reform UK	Llafur Cymru	Ceidwadwyr Cymreig	Y Blaid Werdd	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Eraill	1	2	3	4	5	6	
Afan Ogwr Rhondda	36.93%	33.63%	16.7%	4.26%	3.85%	2.71%	1.88%							44.68%
Bangor Conwy Môn	44.93%	28.12%	6.4%	12.38%	4.49%	2.30%	1.36%							53.75%
Blaenau Gwent Caerffili Rhymni	41.98%	34.30%	11.1%	4.80%	3.50%	1.84%	2.49%							47.59%
Brycheiniog Tawe Nedd	28.70%	33.17	8.7%	8.41%	6.66%	11.77%	2.54%							52.85%
Caerdydd Ffynnon Taf	36.97%	19.65%	12.8%	9.61%	10.24%	9.57%	1.19%							58.50%
Caerdydd Penarth	41.04%	17.63%	12.4%	7.74%	13.76%	2.57%	4.88%							56.70%

Enw'r etholaeth	Cyfran y pleidleisiau (%)							Seddi a enillwyd						Y ganran a bleidleisiodd (%)
	Plaid Cymru	Reform UK	Llafur Cymru	Ceidwadwyr Cymreig	Y Blaid Werdd	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Eraill	1	2	3	4	5	6	
Casnewydd Islwyn	29.69%	32.91%	13.7%	11.39%	7.59%	3.45%	1.30%							48.05%
Ceredigion Penfro	35.83%	25.80%	7.3%	16.59%	7.09%	5.17%	2.23%							56.06%
Clwyd	28.31%	32.27%	10.4%	20.30%	5.29%	2.95%	0.44%							51.28%
Fflint Wrecsam	26.34%	36.21%	12.2%	12.88%	7.34%	3.78%	1.21%							45.78%
Gwynedd Maldwyn	44.18%	27.75%	5.5%	6.92%	5.01%	5.57%	5.11%							52.46%
Gŵyr Abertawe	31.85%	27.49%	14.2%	9.56%	8.11%	7.95%	0.82%							50.88%
Pen-y-bont Bro Morgannwg	33.50%	30.08%	11.6%	15.24%	5.16%	2.66%	1.73%							53.73%

Enw'r etholaeth	Cyfran y pleidleisiau (%)							Seddi a enillwyd						Y ganran a bleidleisiodd (%)
	Plaid Cymru	Reform UK	Llafur Cymru	Ceidwadwyr Cymreig	Y Blaid Werdd	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Eraill	1	2	3	4	5	6	
Pontypridd Cynon Merthyr	39.50%	30.59%	12.9%	5.97%	4.77%	1.92%	4.38%							47.2%
Sir Fynwy Torfaen	23.52%	31.09	15.0%	17.24%	8.20%	3.53%	1.41%							51.8%
Sir Gaerfyrddin	43.06%	32.79%	7.7%	6.97%	4.56%	1.98%	2.95%							55.8%

Afan Ogwr Rhondda

Etholwyr:	148,732
Pleidleisiau dilys a fwriwyd:	66,449
Cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd:	135
Y ganran a bleidleisiodd:	44.68%



Plaid Wleidyddol / Ymgeisydd Unigol	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y bleidlais	Aelodau a etholwyd	Ymgeiswyr
Plaid Cymru	24,538	36.93%	3	6
Reform UK	22,345	33.63%	2	6
Llafur Cymru	11,123	16.74%	1	8
Y Ceidwadwyr Cymreig	2,831	4.26%	0	6
Plaid Werdd Cymru	2,561	3.85%	0	6
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	1,800	2.71%	0	6
Heritage Party	747	1.12%	0	2
Captan Beany	504	0.76%	0	Unigolyn

Aelodau etholedig

Safle	Aelod o'r Senedd	Plaid wleidyddol
1	Sera Evans	Plaid Cymru
2	Benjamin Hodge McKenna	Reform UK
3	Alun Cox	Plaid Cymru
4	Steve Bayliss	Reform UK
5	Huw Irranca-Davies	Llafur Cymru
6	Elyn Stephens	Plaid Cymru

Bangor Conwy Môn

Etholwyr:	128,615
Pleidleisiau dilys a fwriwyd:	69,130
Cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd:	123
Y ganran a bleidleisiodd:	53.75%



Plaid Wleidyddol / Ymgeisydd Unigol	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y bleidlais	Aelodau a etholwyd	Ymgeiswyr
Plaid Cymru	31,057	44.93%	3	8
Reform UK	19,440	28.12%	2	6
Y Ceidwadwyr Cymreig	8,555	12.38%	1	6
Llafur Cymru	4,448	6.43%	0	6
Plaid Werdd Cymru	3,101	4.49%	0	6
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	1,591	2.30%	0	6
Plaid Lafur Sosialaidd	285	0.41%	0	1
Official Monster Raving Loony Party	279	0.40%	0	1
Heritage Party	231	0.33%	0	1
Plaid Gomiwnyddol Prydain	143	0.21%	0	1

Aelodau etholedig

Safle	Aelod o'r Senedd	Plaid wleidyddol
1	Rhun ap Iorwerth	Plaid Cymru
2	Helen Jenner	Reform UK
3	Mair Rowlands	Plaid Cymru
4	Elfed Williams	Plaid Cymru
5	John Clark	Reform UK
6	Janet Finch-Saunders	Y Ceidwadwyr Cymreig

Blaenau Gwent Caerffili Rhymini

Etholwyr:	146,732
Pleidleisiau dilys a fwriwyd:	69,832
Cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd:	155
Y ganran a bleidleisiodd:	47.59%



Plaid Wleidyddol / Ymgeisydd Unigol	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y bleidlais	Aelodau a etholwyd	Ymgeiswyr
Plaid Cymru	29,314	41.98%	3	7
Reform UK	23,955	34.30%	3	6
Llafur Cymru	7,739	11.08%	0	6
Y Ceidwadwyr Cymreig	3,353	4.80%	0	6
Plaid Werdd Cymru	2,447	3.50%	0	6
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	1,284	1.84%	0	6
Jordan Brace	931	1.33%	0	Unigolyn
Mike Whatley	374	0.54%	0	Unigolyn
Heritage Party	262	0.38%	0	1
Plaid Agored	102	0.15%	0	1
Steve Wright	71	0.10%	0	Unigolyn

Aelodau etholedig

Safle	Aelod o'r Senedd	Plaid wleidyddol
1	Delyth Jewell	Plaid Cymru
2	Llŷr Powell	Reform UK
3	Lindsay Whittle	Plaid Cymru
4	Catherine Cullen	Reform UK
5	Niamh Salkeld	Plaid Cymru
6	Joshua Kim	Reform UK

Brycheiniog Tawe Nedd

Etholwyr:	153,435
Pleidleisiau dilys a fwriwyd:	81,096
Cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd:	189
Y ganran a bleidleisiodd:	52.85%



Plaid Wleidyddol / Ymgeisydd Unigol	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y bleidlais	Aelodau a etholwyd	Ymgeiswyr
Reform UK	26,897	33.17%	3	6
Plaid Cymru	23,276	28.70%	2	6
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	9,549	11.77%	1	6
Llafur Cymru	7,086	8.74%	0	7
Y Ceidwadwyr Cymreig	6,821	8.41%	0	6
Plaid Werdd Cymru	5,405	6.66%	0	6
Beverley Jane Baynham	586	0.72%	0	Unigolyn
Plaid Gristnogol Cymru	456	0.56%	0	Unigolyn
Dai Richards	316	0.39%	0	Unigolyn
Heritage Party	275	0.34%	0	1
Joe Hale	225	0.28%	0	Unigolyn
Gwlad	204	0.25%	0	1

Aelodau etholedig

Safle	Aelod o'r Senedd	Plaid wleidyddol
1	James Evans	Reform UK
2	Sioned Williams	Plaid Cymru
3	Iain McIntosh	Reform UK
4	Rebeca Phillips	Plaid Cymru
5	Jane Dodds	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
6	David Mills	Reform UK

Caerdydd Ffynnon Taf

Etholwyr:	150,796
Pleidleisiau dilys a fwriwyd:	88,220
Cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd:	227
Y ganran a bleidleisiodd:	58.50%



Plaid Wleidyddol / Ymgeisydd Unigol	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y bleidlais	Aelodau a etholwyd	Ymgeiswyr
Plaid Cymru	32,617	36.97%	3	6
Reform UK	17,335	19.65%	1	6
Llafur Cymru	11,261	12.76%	1	8
Plaid Werdd Cymru	9,036	10.24%	1	6
Y Ceidwadwyr Cymreig	8,479	9.61%	0	6
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	8,442	9.57%	0	6
Propel	561	0.64%	0	2
Heritage Party	208	0.24%	0	1
Lawrence Douglas Gwynn	156	0.18%	0	Unigolyn
Clymblaid Undebwyr Llafur a Sosialwyr Cymru	125	0.14%	0	3

Aelodau etholedig

Safle	Aelod o'r Senedd	Plaid wleidyddol
1	Dafydd Trystan Davies	Plaid Cymru
2	Cai Parry-Jones	Reform UK
3	Zaynub Akbar	Plaid Cymru
4	Shav Taj	Llafur Cymru
5	Nick Carter	Plaid Cymru
6	Paul Rock	Plaid Werdd Cymru

Caerdydd Penarth

Etholwyr:	155,286
Pleidleisiau dilys a fwriwyd:	88,053
Cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd:	220
Y ganran a bleidleisiodd:	56.70%



Plaid Wleidyddol / Ymgeisydd Unigol	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y bleidlais	Aelodau a etholwyd	Ymgeiswyr
Plaid Cymru	36,136	41.04%	3	6
Reform UK	15,525	17.63%	1	6
Plaid Werdd Cymru	12,113	13.76%	1	2
Llafur Cymru	10,907	12.39%	1	6
Y Ceidwadwyr Cymreig	6,818	7.74%	0	6
Propel	3,471	3.94%	0	1
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	2,260	2.57%	0	7
Rhys ab Owen	414	0.47%	0	Unigolyn
Plaid Gomiwnyddol Prydain	211	0.24%	0	1
Heritage Party	198	0.22%	0	6

Aelodau etholedig

Safle	Aelod o'r Senedd	Plaid wleidyddol
1	Anna Brychan	Plaid Cymru
2	Kiera Marshall	Plaid Cymru
3	Joe Martin	Reform UK
4	Anthony Slaughter	Plaid Werdd Cymru
5	Leticia Gonzalez	Plaid Cymru
6	Huw Thomas	Llafur Cymru

Casnewydd Islwyn

Etholwyr:	161,697
Pleidleisiau dilys a fwriwyd:	77,698
Cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd:	193
Y ganran a bleidleisiodd:	48.05%



Plaid Wleidyddol / Ymgeisydd Unigol	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y bleidlais	Aelodau a etholwyd	Ymgeiswyr
Reform UK	25,571	32.91%	2	6
Plaid Cymru	23,069	29.69%	2	6
Llafur Cymru	10,622	13.67%	1	7
Y Ceidwadwyr Cymreig	8,847	11.39%	1	6
Plaid Werdd Cymru	5,898	7.59%	0	6
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	2,683	3.45%	0	6
Plaid Agored	435	0.56%	0	2
Heritage Party	349	0.45%	0	1
Taran Clayton	224	0.29%	0	Unigolyn

Aelodau etholedig

Safle	Aelod o'r Senedd	Plaid wleidyddol
1	Dan Thomas	Reform UK
2	Peredur Owen Griffiths	Plaid Cymru
3	Art Wright	Reform UK
4	Lyn Ackerman	Plaid Cymru
5	Jayne Bryant	Llafur Cymru
6	Natasha Asghar	Y Ceidwadwyr Cymreig

Ceredigion Penfro

Etholwyr:	159,021
Pleidleisiau dilys a fwriwyd:	89,153
Cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd:	247
Y ganran a bleidleisiodd:	56.06%



Plaid Wleidyddol / Ymgeisydd Unigol	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y bleidlais	Aelodau a etholwyd	Ymgeiswyr
Plaid Cymru	31,943	35.83%	3	8
Reform UK	23,003	25.80%	2	6
Y Ceidwadwyr Cymreig	14,789	16.59%	1	6
Llafur Cymru	6,495	7.29%	0	7
Plaid Werdd Cymru	6,324	7.09%	0	6
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	4,613	5.17%	0	6
Gwlad	802	0.90%	0	1
Heritage Party	442	0.50%	0	1
Aaron Carey	368	0.41%	0	Unigolyn
George Alexander Chadzy	286	0.32%	0	Unigolyn
Paul Hayward Dowson	88	0.10%	0	Unigolyn

Aelodau etholedig

Safle	Aelod o'r Senedd	Plaid wleidyddol
1	Elin Jones	Plaid Cymru
2	Claire Archibald	Reform UK
3	Kerry Ferguson	Plaid Cymru
4	Paul Davies	Y Ceidwadwyr Cymreig
5	Paul Marr	Reform UK
6	Anna Nicholl	Plaid Cymru

Clwyd

Etholwyr:	155,536
Pleidleisiau dilys a fwriwyd:	79,757
Cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd:	166
Y ganran a bleidleisiodd:	51.28%



Plaid Wleidyddol / Ymgeisydd Unigol	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y bleidlais	Aelodau a etholwyd	Ymgeiswyr
Reform UK	25,741	32.27%	3	6
Plaid Cymru	22,583	28.31%	2	6
Y Ceidwadwyr Cymreig	16,193	20.30%	1	7
Llafur Cymru	8,314	10.42%	0	8
Plaid Werdd Cymru	4,219	5.29%	0	6
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	2,355	2.95%	0	6
Heritage Party	352	0.44%	0	1

Aelodau etholedig

Safle	Aelod o'r Senedd	Plaid wleidyddol
1	Adrian Mason	Reform UK
2	Llyr Gruffydd	Plaid Cymru
3	Darren Millar	Y Ceidwadwyr Cymreig
4	Louise Emery	Reform UK
5	Becca Martin	Plaid Cymru
6	Tom Montgomery	Reform UK

Fflint Wrecsam

Etholwyr:	152,885
Pleidleisiau dilys a fwriwyd:	69,996
Cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd:	180
Y ganran a bleidleisiodd:	45.78%



Plaid Wleidyddol / Ymgeisydd Unigol	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y bleidlais	Aelodau a etholwyd	Ymgeiswyr
Reform UK	25,349	36.21%	2	6
Plaid Cymru	18,440	26.34%	2	6
Y Ceidwadwyr Cymreig	9,017	12.88%	1	6
Llafur Cymru	8,555	12.22%	1	6
Plaid Werdd Cymru	5,138	7.34%	0	6
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	2,647	3.78%	0	6
Andrew John Williams	429	0.61%	0	Unigolyn
Heritage Party	256	0.37%	0	1
Social Democratic Party	165	0.24%	0	1

Aelodau etholedig

Safle	Aelod o'r Senedd	Plaid wleidyddol
1	Cristiana Emsley	Reform UK
2	Carrie Harper	Plaid Cymru
3	Nigel Williams	Reform UK
4	Marc Jones	Plaid Cymru
5	Sam Rowlands	Y Ceidwadwyr Cymreig
6	Ken Skates	Llafur Cymru

Gwynedd Maldwyn

Etholwyr:	155,719
Pleidleisiau dilys a fwriwyd:	81,690
Cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd:	199
Y ganran a bleidleisiodd:	52.46%



Plaid Wleidyddol / Ymgeisydd Unigol	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y bleidlais	Aelodau a etholwyd	Ymgeiswyr
Plaid Cymru	36,087	44.18%	4	8
Reform UK	22,667	27.75%	2	6
Y Ceidwadwyr Cymreig	5,650	6.92%	0	6
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	4,554	5.57%	0	6
Llafur Cymru	4,466	5.47%	0	6
Plaid Werdd Cymru	4,090	5.01%	0	6
Russell George	2,862	3.50%	0	Unigolyn
Gwlad	767	0.94%	0	1
Monty Kennard	313	0.38%	0	Unigolyn
Heritage Party	240	0.29%	0	1

Aelodau etholedig

Safle	Aelod o'r Senedd	Plaid wleidyddol
1	Sian Gwenllian	Plaid Cymru
2	Andrew Griffin	Reform UK
3	Mabon ap Gwynfor	Plaid Cymru
4	Beca Brown	Plaid Cymru
5	Claire Johnson-Wood	Reform UK
6	Elwyn Vaughan	Plaid Cymru

Gŵyr Abertawe

Etholwyr:	155,120
Pleidleisiau dilys a fwriwyd:	78,722
Cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd:	187
Y ganran a bleidleisiodd:	50.88%



Plaid Wleidyddol / Ymgeisydd Unigol	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y bleidlais	Aelodau a etholwyd	Ymgeiswyr
Plaid Cymru	25,076	31.85%	3	6
Reform UK	21,641	27.49%	2	6
Llafur Cymru	11,195	14.22%	1	6
Y Ceidwadwyr Cymreig	7,523	9.56%	0	6
Plaid Werdd Cymru	6,383	8.11%	0	6
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	6,262	7.95%	0	6
Heritage Party	227	0.29%	0	1
Clymblaid Undebwyr Llafur a Sosialwyr Cymru	119	0.15%	0	1
Katon Bouzalakos	111	0.14%	0	Unigolyn
Dan Brown	104	0.13%	0	Unigolyn
Emma McNamara	81	0.10%	0	Unigolyn

Aelodau etholedig

Safle	Aelod o'r Senedd	Plaid wleidyddol
1	Gwyn Williams	Plaid Cymru
2	Francesca O'Brien	Reform UK
3	Safa Elhassan	Plaid Cymru
4	Mike Hedges	Llafur Cymru
5	Steven Rodaway	Reform UK
6	John Davies	Plaid Cymru

Pen-y-bont Bro Morgannwg

Etholwyr:	152,519
Pleidleisiau dilys a fwriwyd:	81,801
Cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd:	159
Y ganran a bleidleisiodd:	53.73%



Plaid Wleidyddol / Ymgeisydd Unigol	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y bleidlais	Aelodau a etholwyd	Ymgeiswyr
Plaid Cymru	27,407	33.50%	2	6
Reform UK	24,602	30.08%	2	6
Y Ceidwadwyr Cymreig	12,464	15.24%	1	6
Llafur Cymru	9,518	11.64%	1	7
Plaid Werdd Cymru	4,220	5.16%	0	6
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	2,175	2.66%	0	8
Caroline Jones	651	0.80%	0	Unigolyn
Heritage Party	429	0.52%	0	1
William Jeffreys	221	0.27%	0	Unigolyn
Lucia Wyatt	114	0.14%	0	Unigolyn

Aelodau etholedig

Safle	Aelod o'r Senedd	Plaid wleidyddol
1	Mark Hooper	Plaid Cymru
2	Sarah Cooper-Lesadd	Reform UK
3	Sarah Rees	Plaid Cymru
4	Andrew RT Davies	Y Ceidwadwyr Cymreig
5	Gareth Thomas	Reform UK
6	Sarah Murphy	Llafur Cymru

Pontypridd Cynon Merthyr

Etholwyr:	153,815
Pleidleisiau dilys a fwriwyd:	72,628
Cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd:	219
Y ganran a bleidleisiodd:	47.22%



Plaid Wleidyddol / Ymgeisydd Unigol	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y bleidlais	Aelodau a etholwyd	Ymgeiswyr
Plaid Cymru	28,687	39.50%	3	6
Reform UK	22,217	30.59%	2	6
Llafur Cymru	9,344	12.87%	1	7
Y Ceidwadwyr Cymreig	4,339	5.97%	0	6
Plaid Werdd Cymru	3,466	4.77%	0	6
Beth Winter	2,297	3.16%	0	Unigolyn
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	1,393	1.92%	0	6
Heritage Party	431	0.59%	0	1
Gwlad	202	0.28%	0	1
Dai Hedley Williams	148	0.20%	0	Unigolyn
Joseph Anthony Biddulph	104	0.14%	0	Unigolyn

Aelodau etholedig

Safle	Aelod o'r Senedd	Plaid wleidyddol
1	Heledd Fychan	Plaid Cymru
2	Jason O'Connell	Reform UK
3	Lis McLean	Plaid Cymru
4	David Hughes	Reform UK
5	Sara Crowley	Plaid Cymru
6	Vikki Howells	Llafur Cymru

Sir Fynwy Torfaen

Etholwyr:	150,095
Pleidleisiau dilys a fwriwyd:	77,706
Cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd:	170
Y ganran a bleidleisiodd:	51.77%




Plaid Wleidyddol / Ymgeisydd Unigol	Pleidleisiau a enillwyd	Cyfran y bleidlais	Aelodau a etholwyd	Ymgeiswyr
Reform UK	24,155	31.09%	2	6
Plaid Cymru	18,275	23.52%	2	6
Y Ceidwadwyr Cymreig	13,394	17.24%	1	6
Llafur Cymru	11,672	15.02%	1	7
Plaid Werdd Cymru	6,375	8.20%	0	6
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	2,742	3.53%	0	6
